# Taflen Ffeithiau ar Geisiadau Tai

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn sôn am gwynion ynghylch ceisiadau tai / trosglwyddo. Dylid ei darllen gyda'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth. Efallai y byddwch hefyd am ddarllen ein taflen ar ddigartrefedd a allai fod yn berthnasol.

Rhaid i gynghorau a chymdeithasau tai fod â pholisi ysgrifenedig yn egluro sut y byddant yn cynnig eu tai drwy ystyried anghenion y person.

Mae gofynion cyfreithiol mwy llym ar y Cyngor, e.e. mae rhai pobl y mae'n rhaid i'r Cyngor roi blaenoriaeth resymol iddynt gan gynnwys: pobl ddigartref; pobl sy'n byw mewn tai wedi eu gorlenwi neu sy'n anaddas; pobl sydd ag anghenion meddygol neu anableddau arbennig; mae hyn hefyd yn berthnasol i drosglwyddo.

Gall cymdeithasau tai fod yn fwy hyblyg o ran i bwy y maent yn cynnig llety iddynt, e.e. medrant wrthod cynnig tŷ ichi os oes arnoch ddyledion rhent i landlord arall.

Bydd polisi'r Cyngor neu'r gymdeithas dai yn egluro sut y bydd yn penderfynu pwy sy'n cael cynnig tŷ yn gyntaf, e.e. cynllun pwyntiau; cynllun bandiau / cwotâu; neu system fidio am dai arbennig.

## Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Bydd yn gallu:

- edrych i weld a ddeliwyd yn briodol â'ch cais am dŷ.
- edrych i weld a ydyw'r Cyngor neu'r gymdeithas dai wedi cymhwyso eu polisi i'ch cais am dŷ yn gywir, e.e. a ydych yn y band cywir?
- edrych i weld a ddywedodd y Cyngor neu'r gymdeithas dai wrthych sut y deliodd â'ch cais am dŷ, e.e. a ydyw wedi anfon llythyr atoch gyda manylion unrhyw bwyntiau a roddwyd ichi?
- edrych i weld a wnaeth y Cyngor neu'r gymdeithas dai oedi wrth ddelio â newidiadau yn eich sefyllfa ar ôl cael gwybod gennych, e.e. lle gofynnwyd ichi adael eich cartref.
- edrych i weld pam y cafodd eich cais efallai ei ohirio, e.e. a ydyw'r Cyngor wedi dilyn y weithdrefn gywir os mai eich ymddygiad oedd y rheswm dros ohirio eich cais?

## Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni fydd yn gallu:

- gorfodi'r Cyngor / Cymdeithas Dai i roi tŷ ichi, neu unrhyw dŷ arbennig sydd ei eisiau arnoch.

- newid penderfyniad a wnaed yn briodol ynghylch eich cais am dŷ.

## Materion i gadw mewn cof

Nid oes digon o dai i bawb sydd eisiau un.

Efallai y bydd y polisi'n cyfyngu ar faint o gynigion y gellir eu gwneud ichi neu gyfyngu ar yr ardaloedd y gallwch eu dewis ar eich cais am dŷ.

## Gwybodaeth bellach

Efallai y byddwch am ystyried cysylltu â'r mudiadau canlynol am gyngor:

**Shelter Cymru** sy'n rhoi cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ar dai. Gallwch eu ffonio ar **0845 075 5005** neu fynd i'w gwefan yn www.sheltercymru.org.uk.
**Cyngor ar Bopeth Cymru** sy'n rhoi cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ar ystod o broblemau (gan gynnwys tai). Gallwch gysylltu â nhw drwy fynd ar y we yn www.citizensadvice.org.uk (a dewis opsiwn tudalen 'Cymru') a chofnodi eich cod post i gael manylion ar sut i gysylltu â'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol agosaf.
Mae **Canolfan Gyfreithiol Caerdydd** yn rhoi cyngor a chymorth annibynnol a di-dâl ar ystod o broblemau (gan gynnwys tai) i bobl sy'n byw a gweithio yn Ninas a Sir Caerdydd yn unig. Gallwch eu ffonio ar **029 20498117** neu fynd i'w gwefan yn www.lawcentres.org.uk .
Mae Ffederasiwn y Canolfannau Cyfreithiol hefyd yn rhedeg llinell gymorth gyfreithiol gymunedol (ar gyfer Cymru a Lloegr) ar **0845 345 4345** neu drwy fynd i'r we yn www.communitylegaladvice.org.uk.

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a di-duedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymell – ond mewn gwirionedd maent yn gwneud hynny bron bob tro. Mae enghreifftiau o achosion yr edrychodd yr Ombwdsmon arnynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombudsman-wales.org.uk

**Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:**

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ